



**Academi Genedlaethol ar gyfer
Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for
Educational Leadership Wales**

Cofnodion/Nodiadau Gweithredu o Gyfarfod y Bwrdd, 26 Tachwedd 2021 ar Zoom

Yn bresennol: Sue Davies (SD) (Cadeirydd)
Tegwen Ellis (TE) (Prif Weithredwr)
Mike James (MJ)
Martin Price (MP)
Davina Payne (DP)
Paul Marshall (PM)
John Graystone (JG)
Rosemary Jones (RJ)
Kate Lewis (KL)
Michaela Renkes (LIC)
Nia Miles (NM)
Gaynor Ace (GA) (Ysgrifenyddiaeth)

1. Gair o Groeso, cadarnhad o'r cofnodion a champau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol

Agorodd SD y sesiwn a chroesawodd bawb i gyfarfod olaf y Bwrdd yn 2021. Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau ac nid oedd unrhyw wrthdaro buddiannau.

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gofnod gwir a chywir. Cyfeiriodd SD at y Log Gweithredu o gyfarfod blaenorol y Bwrdd a nododd fod y rhan fwyaf o'r camau gweithredu bellach wedi'u cwblhau.

Gan gyfeirio at gamau gweithredu parhaus:

- Bydd Camau Gweithredu 180 a 184 yn cael eu cwblhau yn y Flwyddyn Newydd fel y nodwyd yng nghofnodion blaenorol y Bwrdd.

2. Adroddiad y Pwyllgor Cyllid/Adnoddau Dynol

Darparodd MP adroddiad cryno ar gyfarfod diwethaf y pwyllgor Cyllid/Adnoddau Dynol a gynhaliwyd ddechrau mis Tachwedd.

Roedd y pwyllgor wedi bod yn falch o adrodd bod iechyd a lles staff yn dda ar hyn o bryd a bod y sefydliad wedi ennill gwobr aur am les (i'w drafod o dan eitem 6 ar yr agenda).

Roedd KL wedi mynd drwy'r gyllideb bresennol yn y cyfarfod ac roedd y cyfan yn mynd yn ei flaen yn unol â'r cynllun. Roedd KL a TE wedi rhoi sicrwydd i'r pwyllgor y byddai'r tanwariant presennol i gyd yn cael ei fuddsoddi mewn prosiectau a mentrau erbyn diwedd y flwyddyn.

Diolchodd SD i MP am ei adroddiad a derbyniwyd cofnodion y pwyllgor gan y Bwrdd.

3. Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Cyflwynodd MJ yr adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a gynhaliwyd yn gynharach y mis hwn hefyd. Roedd y cyfarfod hwn yn canolbwyntio ar y fersiwn wedi'i hail-lunio o'r gofrestr risg a oedd wedi'i hystyried gan bawb fel dull deallus da i'w fabwysiadu. Roedd Jason Garcia o Archwilio Cymru wedi dweud ei bod yn galonogol iawn gweld sefydliad yn defnyddio barn i werthuso risgiau yn hytrach na chanolbwyntio'n fwy cul ar liwiau risg.

Cafwyd trafodaeth ddefnyddiol ar natur risgiau a lliniaru risgiau. Cytunwyd wedyn i ddiwygio Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd i adlewyrchu'r gofrestr risg ar ei newydd wedd.

Cyfeiriodd MJ at risgiau Effaith Uchel Tebygolrwydd Isel nad ydynt wedi'u cynllunio ar eu cyfer yn gyffredinol. Enghraifft dda fyddai seiberddiogelwch. Cytunwyd mai cam darbodus fyddai cynllunio ar gyfer tor diogelwch seiber er efallai na fydd hyn byth yn digwydd. Bydd archwiliad dwfn o'r risg hon yn cael ei gynllunio cyn gynted ag y bydd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd wedi'i gwblhau. Cytunodd SD fod hyn yn ffordd synhwyrol ymlaen.

Awgrymodd JG y gallai fod yn ddefnyddiol tynnu sylw at y risgiau unigol pan fydd risgiau unigol yn codi neu'n gostwng a hefyd ystyried effeithiau lliniaru.

Diolchodd MJ i JG am wneud y ddau bwynt hyn a fydd yn cael eu hystyried. Ychwanegodd y bydd rhai risgiau yn bresennol bob amser, fodd bynnag, ac yn yr achosion hyn byddai angen i'r sefydliad archwilio ei awydd am risg.

Diolchodd SD i MJ am ei adroddiad ac roedd y Bwrdd yn hapus i gymeradwyo cofnodion y pwyllgor.

4. Adroddiad y Prif Weithredwr yn erbyn y Cynllun Corfforaethol

Dechreuodd TE drwy dynnu sylw at y ffaith bod yr adroddiad hwn yn cyd-fynd â'r cynllun corfforaethol wedi'i ddiweddarau ac yn cynnwys y ffrydiau gwaith ychwanegol.

Roedd y papur ar les wedi'i anfon at y Gweinidog ddiwedd mis Hydref. Derbyniwyd ymateb cefnogol bellach yn cyfarwyddo'r Adran Addysg yn Llywodraeth Cymru i weithio'n agos ar hyn gydag Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru. Cytunodd MR fod hyn yn cyd-fynd yn dda â'r gwaith llawer ehangach sy'n cael ei wneud ar les ond cydnabu fod llawer o waith i'w wneud yma o hyd.

Mae Paragraff 1.1 Sicrhau Ansawdd yn cyfeirio at ganiatáu i ddarparwyr gyflwyno ceisiadau i'w cymeradwyo'n fwy rheolaidd yn hytrach na'r system bresennol o ddwywaith y flwyddyn. Dylai'r dull mwy hyblyg hwn fod yn bosibl yn awr oherwydd bod mwy o gapasiti i gynnal paneli dethol a byddai'n cefnogi'n well y ddarpariaeth arloesi a gyflwynir i'w chymeradwyo. Ar hyn o bryd mae'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yn cyd-lunio digwyddiad gyda darparwyr sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y Flwyddyn Newydd o'r enw gwerth cymeradwyaeth.

Mae Paragraff 1.2 Gwerthuso yn sôn am y ddwy gyfres lwyddiannus a gynhaliwyd ar arloesi sydd bellach wedi'u cwblhau. Mae'r sefydliad bellach yn gweithio gydag Apple a Llywodraeth Cymru ar y drydedd gyfres sy'n profi i fod yn ddull poblogaidd iawn gyda'r sector.

Nododd MR nad oedd cydweithwyr Llywodraeth Cymru bob amser yn ymwybodol o'r gwaith hwn a gofynnodd hefyd beth yn union a olygir wrth 'arloesi'. Cytunodd TE ar bwysigrwydd rhannu'r gwaith hwn mor eang â phosibl ond esboniodd nad yw adroddiadau prosiect wedi'u cwblhau eto. Bydd Llywodraeth Cymru yn cael gwybod am ganlyniadau cyn gynted â phosibl. Cytunodd TE hefyd y gallai diffinio ystyr y gair 'arloesi' fod yn heriol gan y gall olygu gwahanol bethau i wahanol gynulleidfaoedd ac mewn gwahanol gyd-destunau. Ychwanegodd MJ at y drafodaeth hon drwy bwysleisio nad yw arloesi'r un fath â dyfeisio a gallai gyfeirio mewn gwirionedd at wella system bresennol yn hytrach na meddwl am rywbeth cwbl newydd.

Mae Paragraff 1.3 Arweinyddiaeth System yn ymwneud yn bennaf â gwaith y Cymdeithion. Roedd TE yn gwerthfawrogi bod Cymdeithion yn mynd drwy gyfnod anodd iawn yn eu swyddi bob dydd ar hyn o bryd ond canmolodd eu hymrwymiad parhaus i'r sefydliad yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Ar hyn o bryd mae Carfan 2 yn gweithio ar eu comisiwn gan ei gysylltu â chynllun strategaeth 10 mlynedd Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg. Mae rhywfaint o gynnydd yn cael ei wneud gyda'r sector ieuencid ac ôl-16 a chynhaliwyd cyfarfod gyda Colegau Cymru yr wythnos hon i gomisiynu gwaith yn ymwneud â chryfhau arweinyddiaeth a llywodraethu a sicrhau mwy o amrywiaeth ynddynt yn y sector ôl-16.

Holodd JG am ymateb Colegau Cymru ynghylch y gwaith Ôl-16. Cadarnhaodd TE fod Colegau Cymru yn awyddus i gymryd rhan a chymryd yr awenau yn y gwaith hwn.

Nododd Paragraff 1.4 Datblygu Arweinyddiaeth fod y 5ed gyfres o Leadership Unlocked wedi'i chwblhau'n llwyddiannus. Roedd TE wedi clywed bod podlediadau o'r gyfres hon hefyd yn cael eu defnyddio yn ôl yn eu sefydliadau sy'n ganlyniad calonogol iawn. Mae gwaith gyda'r tair gwlad yn parhau gyda ffocws diweddar ar arweinyddiaeth ganol. Braf iawn oedd nodi egni a brwdfrydedd yr arweinwyr canol ysbrydoledig hyn.

Mae paragraff 2.1 yn manylu ar y sail dystiolaeth ar gyfer adnoddau. Bu llawer o gyfyngiadau ar y gwaith hwn oherwydd y pandemig ond roedd TE yn falch o adrodd bod pob nod bellach wedi bod drwy'r grŵp golygyddol trylwyr iawn. Mae'r cynnydd yn cyfeiriadau sy'n gysylltiedig â'r nodau hyn yn caniatáu i unigolion dreiddio'n

ddyfnach a chael gwell dealltwriaeth o dystiolaeth. Roedd TE yn ddiolchgar am yr arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r pecyn cyfryngau i gefnogi'r adnodd hwn. Bwriedir dechrau ffilio ym mis Ionawr a fydd yn cynnwys rhai siaradwyr proffil uchel. Bydd neges fideo gan y Gweinidog yn cael ei chynnwys a fydd yn helpu i hyrwyddo neges gadarnhaol gref.

Roedd MR yn ymwybodol o'r gwaith helaeth sy'n cael ei wneud ac yn pwysleisio'r angen i symleiddio negeseuon dysgu proffesiynol i apelio at y gynulleidfa ehangaf bosibl. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn gweithio ar siarter PL ac amryw o bethau eraill. Mae'n bwriadu anfon enghreifftiau o'r gwaith hwn at y Gweinidog erbyn hanner tymor mis Chwefror.

Mae'r darn Mewnwelediad Arweinyddiaeth System wedi'i lawrlwytho 500 o weithiau hyd yma ac mae'r rhif hwn yn cynyddu bob dydd. Fe'i defnyddiwyd fel cyfeiriad yn y seminar Arweinyddiaeth System a gyflwynwyd gan Alma Harris a hefyd fel darllen hanfodol ar gyfer y modiwl ar arweinyddiaeth yn y Radd Meistr mewn Addysg.

Mae'r darn Mewnwelediad Arweinyddiaeth Ganol bellach wedi'i lansio ac mae eisoes wedi ei lawrlwytho 200 o weithiau. Dylai'r Prosiect Addysgeg, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, fod yn gyfle arall i adeiladu ar y gyfres Mewnwelediad a dangos pwysigrwydd tystiolaeth. Ar hyn o bryd mae'r sefydliad yn cydweithio â Mick Waters ar ddarn Mewnwelediad arall – bydd hwn yn archwilio'r hyn a olygir gan Egwyddorion Arweinyddiaeth. Bydd y darn Arweinyddiaeth Dosturiol yn cael ei lansio yn yr 2^{il} gynhadledd ar-lein ar gyfer arweinyddiaeth a gynhelir ym mis Ionawr. Y gobaith yw y bydd y Gweinidog yn gallu mynychu'r gynhadledd hon neu o leiaf ymddangos ar fideo.

O ran lles, mae'r sesiynau wyneb yn wyneb yn parhau ac yn llwyddiannus iawn. Mae'r rhain hefyd yn cael eu treialu yn y sector ieuencid ac yna byddant yn cael eu gwerthuso i gytuno ar y camau nesaf. Mae cynllun peilot hefyd wedi dechrau ar gyfer penaethiaid dros dro a fydd yn rhedeg tan y Nadolig.

Pwysleisiodd MR bwysigrwydd adrodd yn ôl i themâu cyffredin Llywodraeth Cymru sy'n deillio o'r sesiynau hyn. Esboniodd TE nad yw'r sesiynau bob amser yn ymwneud â thrafod problemau ond eu bod hefyd yn ymwneud ag adeiladu rhwydweithiau a chefnogi lles.

Mae Cynllunio Gweithlu Strategol bellach wedi'i roi mewn ffrwd waith ar wahân. Mae pedwar ALI wedi cytuno i weithio ar gynllun peilot a ddylai ddarparu dosbarthiad da ledled Cymru. Gallai gwaith Colegau Cymru ffitio i mewn i'r ffrwd waith hon hefyd.

Ar yr ochr gorfforaethol, cynhelir cyfarfodydd wythnosol rheolaidd gyda staff i fynd drwy'r cynllun corfforaethol. Pwysleisiodd TE bwysigrwydd sicrhau bod y tîm cyfan yn deall sut mae'r gwahanol ffrydiau gwaith yn gweithio ac yn cyd-fynd â'i gilydd a goblygiadau eu rôl eu hunain.

Mae'r Adroddiad Blynyddol bellach wedi'i gyhoeddi ar y wefan ac mae ail-lunio'r Bwrdd wedi digwydd (mwy o dan eitem 5 ar yr agenda). Mae rheoli risg eisoes cael sylw ond pwysleisiodd TE yma hefyd bwysigrwydd asesu risgiau yn erbyn pob rhan o'r cynllun corfforaethol ac ar lefel weithredol.

Cynhaliwyd cyfarfod gyda'r holl Gymdeithion ddoe i rannu uchafbwyntiau o'r cynllun corfforaethol. Ar hyn o bryd mae'r tîm yn gweithio ar gynllun cyllideb nid yn unig ar gyfer y flwyddyn hon ond hefyd ar gyfer trosolwg o 5 mlynedd.

Roedd TE yn falch o gyhoeddi ei bod wedi derbyn drafft cyntaf y llythyr cylch gwaith sy'n cwmpasu tymor cyfan y llywodraeth hon. Er y cydnabuwyd bod trafodaethau pellach i'w cynnal i sicrhau y gall y sefydliad gyflawni yn erbyn y llythyr cylch gwaith, roedd TE yn hyderus y gellid dod i gytundeb a chanmolodd y berthynas agored ag MR a'i thîm.

Holodd JG a fyddai unrhyw effaith ar y diwrnod ysgol neu'r flwyddyn ysgol yng ngoleuni cytundebau diweddar rhwng Llafur Cymru a Phlaid Cymru. Cadarnhaodd MR fod llawer o waith yn mynd rhagddo ynglŷn â hyn ond mae'n ddyddiau cynnar iawn o hyd.

Bu rhywfaint o gynnydd mewn cyfathrebu sy'n dangos mwy o ryngweithio â'r cyfryngau cymdeithasol. Twitter yw'r platfform mwyaf poblogaidd o hyd ar gyfer rhyngweithio.

Bydd angen diwygio Cylch Gorchwyl y rhanddeiliaid i adlewyrchu'r cyfeiriad newydd. Pan fydd swyddi gwag yn codi ar y rhestr gyfredol, bwriedir annog aelodau newydd o'r sectorau ieuencid ac ôl-16. Bydd y sefydliad yn barod i symud ymlaen gyda'r strategaeth hon ym mis Ionawr gan gynnal cyfarfodydd rheolaidd o hynny ymlaen.

Roedd RJ yn falch iawn o glywed am y gwaith hwn gyda'r grwpiau rhanddeiliaid. O ran cyfathrebu, awgrymodd RJ y gallai'r cefndiroedd corfforaethol ar Zoom ddisodli'r rhai ar y wefan gan eu bod yn adlewyrchu cyfeiriad newydd y sefydliad yn well. Hoffai RJ hefyd weld logos yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd TE yn trafod gyda Charlotte Thomas.

Diolchodd SD i TE am adroddiad manwl iawn ac roedd yn falch o weld cynnydd da mewn cynifer o feysydd.

5. Ailgyfansoddi'r Bwrdd

Cadarnhaodd MR fod yr hysbysebion ar gyfer aelodau newydd y Bwrdd bellach wedi mynd yn fyw ac roedd yn braf gweld bod ambell i gais eisoes wedi dod i law. Mae'r hysbyseb hefyd wedi'i e-bostio at amrywiaeth eang o sefydliadau ledled Cymru i sicrhau'r sylw mwyaf posibl.

Mae'r sifft ar-lein bellach yn cael ei sefydlu a bydd hyn wedyn yn cael ei brofi. Mae'r holl ddyddiadau yn y dyddiaduron ar gyfer cyfweliadau. Pan fydd pob cais wedi dod i law, bydd y Gweinidog yn cael gwybod am y sefyllfa amrywiaeth. Mae'r aelodau hynny o'r Bwrdd sydd wedi cael eu hailbenodi bellach wedi derbyn eu llythyrau i gadarnhau hyn.

Holodd DP a fyddai unrhyw wahaniaethu cadarnhaol ar gyfer aelodau benywaidd o ystyried bod y tri aelod sydd wedi camu i lawr i gyd yn fenywod. Cadarnhaodd MR, er y byddent yn ceisio penodi'r ymgeiswyr gorau posibl, y byddai amrywiaeth y Bwrdd hefyd yn cael ei ystyried yn y penderfyniad terfynol.

Diolchodd SD i MR am ei holl waith caled ar hyn.

6. Cynllun Gweithredu Lles

SD – croesawodd NM i'r cyfarfod a oedd yn mynd i gyflwyno'r cynllun gweithredu lles.

Dywedodd NM mor falch oedd hi o ddarganfod bod y sefydliad wedi ennill y wobwr aur am Fuddsoddwyr mewn Lles. Roedd yr asesydd wedi cyfarfod â'r tîm yr haf diwethaf, gan gynnwys cyfweiliadau ffurfiol ar-lein a hefyd cynnal arolygon.

Bydd y wobwr hon yn para 3 blynedd a bydd hefyd yn cynnwys ymweliadau blynyddol gan yr asesydd a fydd yn gwirio cynnydd gyda'r argymhellion yn yr adroddiad.

Rhannodd NM rai o'r prif ddatganiadau o'r adroddiad a oedd yn canmol gwerthoedd ac ymrwymiad dwfn cryf y sefydliad i ddatblygu diwylliant sy'n hyrwyddo pob agwedd ar les.

Ers hynny, mae NM wedi cyfarfod â'r asesydd i fynd drwy'r argymhellion hyn a chytunwyd ar gynllun gweithredu i ddatblygu'r rhain. Mae archwiliadau lles gyda staff yn cael eu treialu o'r wythnos nesaf ymlaen. Bydd y rhain yn cael eu gwerthuso ddiwedd mis Ionawr i weld a ydynt yn diwallu anghenion y tîm. Bydd barn y staff yn parhau i gael ei monitro drwy arolygon.

O ran lles corfforol, mae sesiynau ioga eisoes wedi'u cyflwyno ond bwriedir darparu ystod ehangach o weithgareddau. Bydd diwrnodau di-sgrin yn parhau i gael eu trefnu.

Darparwyd gwybodaeth hunanofal a fideos am batrymau cysgu iach i staff hefyd ynghyd â dolenni i raglenni ymwybyddiaeth ofalgar a myfyrdod. Canfuwyd bod ymwybyddiaeth ofalgar yn arbennig yn effeithiol iawn o ran hyrwyddo cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. Bwriedir cynnal her iechyd tîm ym mis Mai. Bydd yr holl weithgareddau hyn yn bwydo i mewn i'r 5 ffordd at les.

Gwnaeth y cyflawniad aruthrol i sicrhau'r wobwr hon argraff fawr ar PM a dywedodd fod y sefydliad bellach yn rhan o 'glwb elitaidd'. Cyfeiriodd PM at y cynllun gweithredu manwl iawn a amlinellwyd gan NM a holodd a fyddai unrhyw gyfleoedd i ymgysylltu â sefydliadau eraill ar hyn a rhannu syniadau.

Cytunodd Nia y gallai rhai sefydliadau fod yn hapus i gydweithio a hefyd awgrymodd edrych y tu allan i faes addysg. Yn y Seremoni Wobrwyo yr wythnos hon bu'n ddiddorol iawn edrych ar yr enillwyr ac ystyried yr hyn yr oeddent wedi'i wneud i ennill eu gwobrau. Cytunodd NM i fwrw ymlaen â syniad PM i'w ystyried.

Awgrymodd MR hefyd y gallai'r gwaith hwn fod yn gysylltiedig â'r rhaglen hyfforddi a mentora mewn ysgolion.

Diolchodd SD i NM am sgwrs fanwl a llawn gwybodaeth ac am ei holl waith yn y maes hwn. Soniodd SD hefyd am y ffordd y mae lles i'w weld wedi'i wreiddio mor effeithiol yn y sefydliad.

7. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf, Unrhyw Fater Arall a Dirwyn y Cyfarfod i Ben

Holodd MJ am y cynigion diweddar o dan y Cwricwlwm newydd i Gymru i addysgu gwyddoniaeth fel un pwnc mewn ysgolion hyd at Safon Uwch. Cadarnhaodd MR nad oedd hyn wedi'i gytuno eto ond ei fod yn dal i gael ei drafod.

Awgrymodd TE y dylai'r tîm gyfarfod cyn y Nadolig a chytunodd i drefnu hyn.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd ar 28 Ionawr.

Diolchodd SD i bawb am eu mewnbwn i'r cyfarfod heddiw a ddaeth i ben am 11.45am.

Log Gweithredu

Rhif.		Perchennog	Erbyn Pryd	Statws
180	Gwahodd CW i roi cipolwg ar brofiad Carfan 4	KL	Mawrth 2022	
184	Gwahodd CT a Chydymaith i gyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol	KL	Mawrth 2022	
186	Cynllunio archwiliad dwfn o seiberddiogelwch	MJ	Ionawr 2022	
187	Trafod gwelliannau posibl i'r wefan o ran logos etc.	TE/CT	Ionawr 2022	Cwblhawyd
188	Ystyried cydweithio ar les	NM	Parhaus	
189	Trefnu cyfarfod i'r staff cyn y Nadolig	TE	Rhagfyr 2021	Cwblhawyd